Diweddariad Tachwedd 2018

# PRIFYSGOL BANGOR
# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Dylid cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisiau newydd, adolygu polisiau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol[1] er mwyn sicrhau y dileeir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

---

## GRWPIAU CYDRADDOLDEB:

Oedran    Anabledd    Ailddynodi gender

Diweddariad Tachwedd 2018

| Gwybodaeth am y polisi: | |
|---|---|
| Beth yw pwrpas y polisi? | Mae'r weithdrefn hon ar gyfer yr holl fyfyrwyr neu gyn-fyfyrwyr sy’n dymuno gwneud cwyn am eu rhaglen (cwrs)academaidd  neu am unrhyw wasanaethau eraill sy'n cael eu cynnig gan y brifysgol. |
| Pwy sy’n gyfrifol am y polisi? | Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio. |
| Beth yw cysylltiad y polisi â blaenoriaethau strategol y brifysgol? | Ein cenhadaeth: "profiad cynhwysol".<br><br>Ein gwerthoedd: "amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol". |

Diweddariad Tachwedd 2018

| Monitro | |
|---|---|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael i gyfrannu at y polisi? | Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â'r weithdrefn. Mae adfyfyrio neu ôl-gyfarwyddo'n digwydd ar ddiwedd pob cwyn a chaiff unrhyw argymhellion o ran y weithdrefn eu nodi bryd hynny. Dadansoddir cwynion yn flynyddol gan nodi'r tueddiadau ac adrodd arnynt i'r grwpiau tasg perthnasol. |

| Ymgynghori | |
|---|---|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon. |
| Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad? | Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhanddeiliaid allweddol bob blwyddyn a chedwir cofnod ohonynt. Gall unrhyw aelod staff neu fyfyriwr awgrymu newidiadau i'r weithdrefn trwy'r Cynorthwywr Cydymffurfio a Rheoliadau. |
| Sut mae ymgynghori wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi? | Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y weithdrefn yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr. Mae gan y weithdrefn gylch adolygu sefydlog lle caiff datblygiadau eu cynnwys. |

| Gweithredu | |
|---|---|
| Sut y gweithredir y polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon.<br><br>Bydd y weithdrefn ar gael ar-lein yn www.bangor.ac.uk a hefyd ar ffurf brintiedig ar gais. Cyflwynir sesiynau briffio gweithdrefnau cwynion bob blwyddyn a gall unrhyw aelod staff fynd i'r sesiynau. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi? | Mae'r Uwch Swyddog Materion Myfyrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y rheoliad yn cael ei weithredu'n unol â'r hyn a nodir yn y ddogfen. Goruchwylir hyn gan Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. |

Diweddariad Tachwedd 2018

| Monitro | |
|---|---|
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod? | Mae pob cwyn yn dilyn y weithdrefn ac mae unrhyw faterion sy'n codi sy'n deillio o'r weithdrefn yn cael eu hadolygu bryd hynny.<br><br>Mae monitro ac adroddiadau parhaus i Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn digwydd fel rhan o galendr blynyddol y brifysgol. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. |
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol dan anfantais? | Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol. |
| Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw'n cyrraedd ei nod a'i amcanion? | Mae'r weithdrefn hon ar gylch adolygu 3 blynedd, ond caiff ei phrofi bob tro y caiff ei defnyddio. |

Goblygiadau o